ATODLEN

Cyfeiriad at ymchwilydd ariannol achrededig

# RHAN 1

**1.** Adran 42(2)(c) (cais am orchymyn atal o dan Ran 2 – yn ddarostyngedig i awdurdodiad o dan adran 68(3)(c)).

**2.** Adrannau 47A(1)(c)(**1**) (adrannau 47B i 47S: ystyr "appropriate officer") a 47M(3)(c) (cadwad pellach gan lys ynadon).

**3.** Pennod 3 o Ran 5 (ar wahân i'r ail gyfeiriad yn adran 290(4)(c)(**2**)).

**4.** Adran 352(5)(c)(**3**) (y person priodol at ddibenion gwarantau chwilio ac ymafael o dan Bennod 2 o Ran 8).

**5.** Adran 353(10)(c)(**4**) (y person priodol ar gyfer sicrhau mynediad ar unwaith i fangre pan na fo gorchymyn cyflwyno ar gael).

**6.** Adran 378(1)(b) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau atafaelu o dan Ran 8).

**7.** Adran 378(3A)(ab)(**5**) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau arian parod dan gadwad o dan Ran 8).

**8.** Adran 378(4)(a) (y swyddogion priodol at ddibenion ymchwiliadau gwyngalchu arian o dan Ran 8).

(**1**) Mewnosodwyd adrannau 47A i 47S gan adran 55(1) a (2) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).
(**2**) Mewnosodwyd adran 290(4)(c) gan adran 79 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (p. 27), a pharagraffau 1 a 3(1) a (2) o Atodlen 11 iddi.
(**3**) Mewnosodwyd adran 352(5)(c) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 7(1) a (3) o Atodlen 10 iddi. Fe'i diwygiwyd gan adran 80(1)(b) o'r Ddeddf honno.
(**4**) Mewnosodwyd adran 353(10)(c) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 ac 8(1) a (3) o Atodlen 10 iddi. Fe'i diwygiwyd gan adran 80(3)(b) o'r Ddeddf honno.
(**5**) Mewnosodwyd adran 378(3A) gan adran 77 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007, a pharagraffau 1 a 13 o Atodlen 10 iddi. Mewnosodwyd paragraff (ab) gan adran 80(7) o'r Ddeddf honno.